Y diweddaraf ynghylch Aildrefnu'r Gweithlu

Tachwedd 2006

Tu mewn

Gwefan Aildrefnu'r Gweithle	1
Gwelliannau o ran hysbysebu swyddi	1
Cymorth ar gyfer aildrefnu'r gweithlu	1
Cynorthwywyr Dysgu Lefel Uwch (CDLU)	2
Hyfforddiant ar gael ar gyfer staff cymorth	3
Cwestiynau a ofynnir yn fynych: Cyfrifoldebau Addysgu a Dysgu	4

Gwelliannau o ran hysbysebu swyddi

Mae rhai penaethiaid wedi nodi ei bod hi'n anodd penodi cynorthwywyr dosbarth o safon.

Un ffordd o wella safon yr ymgeiswyr yw denu rhagor o bobl i gyflwyno ceisiadau am swyddi trwy roi cyfleoedd gwell i bobl i weld hysbysebion. O ganlyniad, mae swyddi gwag ar gyfer cynorthwywyr dosbarth yn Rhondda Cynon Taf ar wefan eteach. Dyma adnodd sy'n ychwanegol at y papur mewnol ar gyfer swyddi a'r canolfannau gwaith.

Mae modd i ymgeiswyr godi ffurflen gais o'r wefan. O'r herwydd, bydd ffurflenni cais yn llawer cliriach o'u teipio. Pan fydd penaethiaid yn paratoi hysbyseb, bydd rhaid iddyn nhw gadarnhau p'un ai

Trowch i'r dudalen olaf

Gwefan Aildrefnu'r Gweithlu



Mae Gwefan Aildrefnu'r Gweithlu yn drysorfa o wybodaeth ddefnyddiol ac mae'r rhannau allweddol yn ddwyieithog. Dyma'r ychwanegiadau diweddaraf:

- copïau o gylchlythyrau addysg ar faterion aildrefnu'r gweithlu, gan gynnwys cyngor ar bolisïau cyflog ac ati.
- polisi ar gyfer athrawon cyflenwi
- ffurflen ar gyfer hysbysebu swyddi
- disgrifiadau swyddi ar gyfer gweithwyr cymorth (gan gynnwys athrawon meithrin, gofalwyr a chynorthwywyr dysgu) a staff dysgu (athrawon, dirprwy athrawon) a phenaethiaid. Mae'r dogfennau ar ddiwyg Word, felly mae modd i ysgolion newid y cynnwys fel y bo'n briodol.
- rhestr o ddewisiadau ar gyfer amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA), gan gynnwys amser ar gyfer cylchoedd drama a chwaraeon.
- areithiau allweddol gan arbenigwyr ynglŷn â strategaethau gwella
- amlinelliad o gyfleoedd cyllid allanol ar gyfer datblygu staff
- manylion am yr hyfforddiant sy ar gael ar gyfer cynorthwywyr dysgu

www.rctednet.net/remodel yw cyfeiriad y wefan. Mae hi'n cynnwys cyswllt i wefan swyddi *eteach*.

Cymorth ar gyfer aildrefnu'r gweithlu

Daeth cyfnodau secondiad Gareth Jones a Greg Reynolds ynglŷn â gwaith materion Aildrefnu'r Gweithlu i ben ddiwedd tymor yr haf 2006. Diolch iddyn nhw am eu gwaith caled.

Bydd Elizabeth Clark, Blaen Swyddog Materion Aildrefnu'r Gweithlu, yn parhau i roi cyngor a chymorth ar faterion staffio a gweithredu pwyntiau Cyfrifoldebau Addysgu a Dysgu, disgrifiadau swyddi gweithwyr cymorth a'r cytundeb llwyth gwaith.

Mae Elizabeth yn yr Adran Addysg, Tŷ Trevithick - ffôn: 01443 744139, ebost: elizabeth.clark@rhondda-cynon-taf.gov.uk.

Cynorthwywyr Dysgu Lefel Uwch (CDLU)

Asesiadau Cynorthwywyr Dysgu Lefel Uwch yn 2006/07

Mae manylion ynghylch rownd nesaf ar gyfer asesu Cynorthwywyr Dysgu Lefel Uwch wedi cael eu hanfon i'r ysgolion. Dyma'r amserlen arfaethedig:

Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais	24 Tachwedd 2006
Sesiynau gwybodaeth ynglŷn â'r broses asesu	19/1, 12/2, 22/3 2007
Dyddiad ar gyfer cwblhau'r tasgau asesu	21 Ebrill 2007
Ymweld ag ysgolion	30 Ebrill-25 Mai 2007

I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch:
Mrs Alison Tovey, ESIS, Tŷ Dysgu, Cefn Coed, Parc Nantgarw, Trefforest, CF15 7QQ Ffôn: 01443 827591

Seremoni Wobrwyo

Bydd CDLU llwyddiannus ar gyfer 2005/06 yn mynd i achlysur bwffe arbennig yn Nhŷ Dysgu, Canolfan ESIS, Nantgarw y mis yma.

Bydd ein Cyfarwyddwr Addysg ni, Mike Keating, yno i gyflwyno tystysgrifau iddyn nhw yn gydnabyddiaeth am eu cyflawniad.

Ennill cymwysterau Saesneg/ Cymraeg a Rhifedd

Mae rhaid i ymgeiswyr ar gyfer CDLU gyrraedd safon 2 (TGAU neu gyfwerth) mewn Cymraeg neu Saesneg a Rhifedd cyn iddyn nhw gyflwyno cais am asesiad. Mae'r cymwysterau canlynol yn bodloni'r gofynion o ran safon ar gyfer asesiad CDLU:

Tystysgrif Safon 2, Rhifedd a Llythrennedd Oedolion Lefel 2 - cwrs ar-lein

Canolfannau:
Coleg Ystrad Mynach, Twyn Road, Ystrad Mynach, Cysylltwch â Dean Howells **on** 01443 810081

Canolfan Dysgu Agored (OLC), Mill Street, Pontypridd. Cysylltwch â Sheen Sykes a 407863

Safon 2, Cyfathrebu a/neu Rhifedd yn y dosbarth

Canolfannau:
Canolfan Hyfforddiant Ysgol Hen Felin, Parc Gelligaled, Ystradyfodwg, Rhondda
Cysylltwch â (01443) 431571

Safon 2 Cymraeg

Cyswllt: Colin Williams-i.colin.williams@rhondda-cynon-taf.gov.uk neu ffôn 01443 744194

Profiad o gwblhau tystysgrif safon 2 cwrs ar-lein Rhifedd

Llwyddodd Gillian Matthews yn ddiweddar i gwblhau cwrs rhifedd ar lein. Dyma hi'n sôn am ei phrofiadau.

"Pan groesodd hi fy meddwl i am y tro cyntaf i ddilyn cwrs rhifedd i oedolion ar-lein, roeddwn i'n wirioneddol



credu ei bod yn mynd i gymryd peth amser i wella fy medrau. Ond, wedi imi siarad â Dean Howells, y tiwtor yng Ngholeg Ystrad Mynach, roeddwn i'n teimlo'n llawer gwell ac fe arweiniodd e fi trwy bob cam o'r cwrs. Mae'r coleg yn cynnal dosbarthiadau hefyd, ond roedd y cyfle i weithio ar y cyfrifiadur gartref a gwella fy medrau i'r dim i fi.

Doedd neb yno'n edrych dros fy ysgwydd yn aros am gamgymeriad ac roedd cyfarwyddiadau clir iawn i'm llywio drwy'r cwrs. Mae'r cynnwys yn berthnasol i sefyllfaoedd sy'n codi bob dydd, felly doedd dim byd yn hollol newydd i mi. Egluro sut i gyfrifo'n union gwnes i - dyna'r cwbl.

Ymrestrais ar y cwrs fis Medi 2005. Yna, pan oeddwn i'n barod, ffoniais Dean ym mis Chwefror 2006, i drefnu amser ar gyfer fy mhrawf cyntaf.

Er yr holl ymarfer, roeddwn i'n pryderu ar y diwrnod mawr. Rydych chi'n cael y canlyniad ar unwaith a dywedodd e wrtho i fy mod wedi llwyddo! Roeddwn i mor falch! Roeddwn i'n hapus fel y gôg! A'r cam nesaf? Asesiad CDLU…

Cwblheais y prawf gyda Learndirect ac o fewn tua 3 wythnos o ymarfer, roeddwn i'n barod i gymryd y prawf. Roedd e'n hwb enfawr i'm hyder. Os oes rhywun wedi meddwl dilyn y cwrs, peidiwch ag oedi!

Hyfforddiant ar gyfer staff cymorth yn Rhondda Cynon Taf: Medi 2006

Mae rhagor o gyfleoedd hyfforddi i weithwyr cymorth. Dyma amlinelliad o'r hyn sy ar gael:

ESIS
Cyswllt: Stuart Broomfield, 01443 827565 www.esis.org.uk

Cyrsiau	*Safon*	*Hyd*	*Cost*	*Lleoedd*
Llythrennedd (darllen, ysgrifennu, siarad, gwrando)	Dd/B	diwrnod	£100	25
Mathemateg	Dd/B	diwrnod	£100	25
Medrau TGCh	Dd/B	diwrnod	£115	12
Cymraeg Dwys	Dd/B	10 diwrnod		25
Rheoli ymddygiad	Dd/B	diwrnod	£100	25
Deall anawsterau dysgu	Dd/B	diwrnod	£100	25
Arddangos deunydd- gwella amgylchfyd gweledol ysgolion	Dd/B	diwrnod	£100	25
Technoleg bwyd – tystysgrif iechyd a diogelwch	Dd/B	diwrnod	£130	25
Gweithio yn rhan o garfan	Dd/B	diwrnod	£100	25
Gwyddoniaeth a materion diogelwch	Dd/B	½ diwrnod	£59	25
Deall y cwrícwlwm	Safon 4	½ diwrnod	£50	25
Dysgu ac Addysgu	Safon 4	2 ddiwrnod	£200	25
Rheoli ymddygiad	Safon 4	diwrnod	£100	25
Rhoi Cymorth Materion AAA	Safon 4	diwrnod	£100	25

Partneriaeth Addysg y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Rhondda Cynon Taf
Cyswllt: Jan Preece, 01443 744000 www.rctearlyyears.org.uk

Cyrsiau	*Safon*	*Hyd*	*Cost*	*Lleoedd*
Hylendid bwyd	Dd/B	2 x 3 awr	£30	40
Polisïau diogelu plant a'u gweithredu – safon uwch	Dd/B	diwrnod	£30	35
Chwarae awyr agored – pob tywydd amdani!	Dd/B	Gyda'r hwyr	£8	40
Diwrnod cael blas ar faterion AAA	Dd/B	diwrnod	£20	60

Gwasanaeth Materion Prif Ffrwd Rhondda Cynon Taf
Cyswllt: Caroline Rees: 01443 744357

Cyrsiau	*Safon*	*Hyd*	*Cost*	*Lleoedd*
Diwrnodau datblygu proffesyddol i weithwyr Dosbarthiadau Cynnal Dysgu		Ar gais	-	
Hyfforddiant un wrth un ar gyfer Cynorthwywyr Cynnal Dysgu sy'n gweithio gyda disgyblion mae gyda nhw nam ar y synhwyrau		Ar gais	-	
Codi a chario - gweithwyr sy'n gweithio gyda disgyblion mae gyda nhw anabledd corfforol		Ar gais	-	
Cyrsiau rheoli ymddygiad		Ar gais	-	
HMS - strategaethau priodol ar gyfer gweithio gyda disgyblion AAA		Ar gais	-	

Ysgol Hen Felin
Cyswllt: Janice Price (01443) 431571 yhftraining@aol.com

Cyrsiau	*Safon*	*Hyd*	*Cost*	*Lleoedd*
Edexcel CGC Cynorthwywyr Dysgu	Safon 2	Blwyddyn	£1,000	30
BTEC/ CGC Cynorthwywyr Dysgu	Safon 3	20 mis	-	130

Coleg Morgannwg: Llwynypïa, Aberdâr, Pontypridd
Cyswllt: Helen Morgan: 01443 663243, h.morgan@morgannwg.ac.uk www.morgannwg.ac.uk

Cyrsiau	*Safon*	*Hyd*	*Cost*	*Lleoedd*
CACHE - Tystysgrif Gofal Plant ac Addysg	Safon 2	1 fl amser llawn	-	54
CACHE - Tystysgrif Gofal Plant ac Addysg	Safon 2	2 fl rhan-amser	£250	18
CACHE - Diploma Gofal Plant ac Addysg	Safon 3	2 fl amser llawn	£660	54
CACHE - Diploma Gofal Plant ac Addysg	Safon 3	3 bl rhan-amser	£660	36
BTEC - Diploma Cenedlaethol Addysg y Blynyddoedd Cynnar	Safon 3	2 fl amser llawn	-	18
CGC 2 - Addysg y Blynyddoedd Cynnar	Safon 2	hyblyg,	£650	400
CGC 3 - Addysg y Blynyddoedd Cynnar	Safon 3	blwyddyn fel	£800	400
BTEC - Tystysgrif ar gyfer Cynorthwywyr Dysgu	Safon 3	arfer	£200	40

Ymgeiswyr CDLU llwyddiannus

Llongyfarchiadau i'r gweithwyr canlynol a gyrhaeddodd statws CDLU fis Gorffennaf 2006:

Leona Shanley, Ysgol Maes-gwyn
Lindsey Walker, Ysgol Babanod y Comin
Gillian Matthews, Ysgol Gynradd Glenbói
Marlene McGinley, Ysgol Gynradd Perthcelyn
Karen Davies, Ysgol Gynradd Cwm-dâr
Susan Davies, Ysgol Gynradd Pen-y-gawsi
Marina Udy, Ysgol Gynradd Pen-y-gawsi
Tracey Williams, Ysgol Iau'r Maerdy
Lynne Pontin, Ysgol Gynradd Ffynnon Taf
Ann Brookes, Ysgol Iau y Cymer
Kay Collins, Ysgol Gynradd Cilfynydd
Joanne Lewis, Ysgol Maes-gwyn
Karen Thomas, Ysgol Babanod y Comin
Sarah Evans, Ysgol Gynradd Perthcelyn
Karen Martin, Ysgol Gynradd Brynnau
Ann Crabbe, Ysgol Gynradd Cwm-lái
Gaynor Green, Ysgol Gynradd Pen-y-gawsi
Julie Lundregan, Ysgol Gynradd Craig Yr Hesg
Catherine Williams, Ysgol Gyn. Mihangel Sant
Suzanne Taylor, Ysgol Iau y Cymer
Eirlys Cole, Ysgol Gynradd Pont-y-clun
Lynda Cowley, Ysgol Gynradd Llantrisant

Mae dros 30 o athrawon CDLU yn Rhondda Cynon Taf erbyn hyn. Dyma lwyddiant gwerth ei ddathlu. Diolch i bawb o'r penaethiaid sy wedi dangos eu cefnogaeth i'r broses.

Cwestiynau a ofynnir yn fynych

Mae cwestiynau'n codi'n rheolaidd ynglŷn â gweithredu'r agenda ar gyfer aildrefnu'r gweithlu. Dyma rai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin:

Oes modd cael taliadau am Gyfrifoldebau Addysgu a Dysgu dros dro?
Nac oes. Dim ond yr athrawon mae gyda nhw gyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'u swyddi yn y strwythur staffio mae modd eu talu. Felly, does dim modd talu am Gyfrifoldebau Addysgu a Dysgu (CAD) yn ddisymwth ac *ad hoc*. Mae rhaid i'r cyfrifoldebau fod yn 'barhaus' er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y taliadau. Mae'n annhebygol iawn y gallwch chi ddisgrifio cyfrifoldeb yn un 'parhaus' os am flwyddyn neu lai mae e'n cael ei gynnal.

Ond, mae modd ichi bennu swydd sy'n swydd CAD parhaol ar gyfer athro sy'n ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol yn sgîl absenoldeb salwch, cyfnodau mamolaeth, secondiad ac ati. Dydy'r taliadau am gyfrifoldebau addysgu a dysgu o dan y telerau yma ddim yn para unwaith y daw'r cyfnod i ben.

Oes modd i ddau athro rannu taliadau Cyfrifoldebau Addysgu a Dysgu?
Nac oes, oni bai eu bod nhw'n rhannu swydd mae cyfrifoldebau addysgu a dysgu yn perthyn iddi. Does dim modd rhannu swydd mae cyfrifoldebau addysgu a dysgu yn perthyn iddi rhwng dau athro amser llawn neu athro amser llawn ac athro rhan-amser.

Oes modd i ysgolion newid strwythur ar ôl 31 Mawrth 2006?
A bwrw eu bod nhw'n dilyn proses debyg, gan gynnwys ymgynghori â gweithwyr a chynrychiolwyr undebau, mae hawl gydag ysgolion newid y strwythur ar unrhyw adeg wedi'r dyddiad hwnnw. Pe byddai ailstrwythuro mawr yn digwydd yn y dyfodol, dylai cyfnod o ymgynghori helaeth gael ei gynnal unwaith eto. Ond, mewn achosion o newid llai, mae modd cynnal cyfnod ymgynghori byrrach ac ymhlith y rheiny sy'n cael eu heffeithio yn unig hyd yn oed – ar yr amod bod yr undebau ynglŷn â'r broses.

Oes modd talu athrawon yn ôl yr oriau maen nhw'n eu gweithio bob wythnos?
Oes. Er enghraifft, os yw athro yn gweithio 3.5 awr yr wythnos, byddai ei gyflog yn seiliedig ar 3.5 o oriau wedi'u rhannu â 32.5 o oriau ac yna'u lluosi a'r pwynt cyflog priodol.

Ddylwn i dalu athro sy'n gweithio yn yr ysgol ar sail hunan-gyflogaeth?

Ddylech chi ddim talu athro sy'n gweithio yn yr ysgol ar sail hunan-gyflogaeth oherwydd:

- os oes rhywun yn gweithio dros sefydliad yn aml, mae modd ystyried bod perthynas cyflogwr/ gweithiwr yn bodoli. Gallai hyn olygu bod Cyllid y Wlad yn mynnu bod y sefydliad yn cyflogi'r unigolyn yn unol â threfnau Talu Wrth Ennill. Pe bai sefydliad yn cael ei weld yn torri rheolau Cyllid y Wlad byddai dirwy fawr yn cael ei rhoi.
- mae gofyn bod yr ysgol yn gofalu bod trefnau cyfreithiol priodol yn eu lle. Er enghraifft, pe bai athro'n hunangyflogedig byddai gofyn bod gydag e rif cofrestru cwmni i ddibenion TAW.
- efallai bydd rheolau materion caffael yn gofyn am drefnau gosod gwaith ar gynnig
- efallai bod Swyddfa Cofnodion Troseddol heb ymchwilio'n drylwyr i'w cefndiroedd.

Gwelliannau o ran hysbysebu swyddi ***(parhau o'r dudalen flaen)***

defnyddio'r disgrifiadau swyddi safonol neu beidio. Cafodd copïau caled o ddisgrifiadau swyddi cynorthwywyr dosbarth eu hanfon i'r ysgolion fis Gorffennaf 2005 a Medi 2006. Mae cysylltau ar gyfer y disgrifadau swyddi a'r wefan ar gael ar y dudalen we ganlynol: www.rctednet.net/remodel/schoolSupport.htm.